**Y Pwyllgor Diwylliant** **CC-16-01(p.2)**

**Dyddiad:** 7 Tachwedd 2001
**Amser:** 9.00am-12.15pm
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol

**Cyflwyniad Cymuned i'r Pwyllgor Diwylliant 7 Tachwedd 2001**

## Cefndir

1 Sefydlwyd **Cymuned** i hyrwyddo cymunedau Cymraeg eu hiaith. Bydd yr arolwg wedi derbyn tystiolaeth o sawl ffynhonnell arall am ddirywiad yn nifer a dwysedd y cymunedau hyn. Nid oes diben atgynhyrchu'r ffeithiau adnabyddus hyn yn y fan hon; digon yw dweud fod y duedd hanesyddol hon yn brawychu **Cymuned**, fod y broses ar hyn o bryd yn cyflymu, nid yn sefydlogi, a bod Cymru bellach yn wynebu'r posibiliad real na fydd ganddi ymhen ychydig flynyddoedd unrhyw gymunedau Cymraeg gwledig neu bentrefol o gwbl, ac un gymuned Gymraeg drefol yn unig, sef Caernarfon.

Cred **Cymuned** y dylid cynllunio ar frys, gan ryddhau adnoddau sylweddol, er mwyn atal y duedd hon.

2. Seiliwyd y ddogfen hon ar drafodaethau mewn cynhadledd bolisi a gynhaliwyd yn Aberystwyth, 29-30 Medi, a fynychwyd gan dros 100 o bobl, ar 20 o bapurau polisi a gyflwynwyd yn y gynhadledd honno, y mae rhai ohonynt i'w gweld ar ein gwefan (www.cymuned.org), ac ar drafodaethau a gynhaliwyd oddi mewn ac oddi allan i'r mudiad ers hynny.
3. Ers rhai misoedd bellach, mae **Cymuned** wedi bod yn casglu tystiolaeth am yr iaith Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg penodol. Mae'r dystiolaeth wedi bod yn dra gwerthfawr inni a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Cynulliad yn fuan.

## 1. Yr Hawl i Fodoli

1.1 Cred **Cymuned** fod hawl cymunedau ieithyddol cynhenid i fodoli yn hawl ddiymwad y mae'r cymunedau Cymraeg yn ei rhannu â chymunedau cynhenid lleiafrifol eraill ar hyd a lled y byd.

1.2 Geilw **Cymuned** ar y Cynulliad i ddatgan mai'r iaith Gymraeg yw priod iaith Cymru. Fel priod iaith Cymru, golygwn ei bod yn iaith sydd yn neilltuol, ac yn arbennig, i Gymru.

1.3 Geilw **Cymuned** ar y Cynulliad i wneud datganiad diamwys y bydd yn cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â chyfreitheg ryngwladol i warchod buddiannau y lleiafrif Cymraeg ei iaith, yn enwedig felly Penderfyniad 47/135 y Cenhedloedd Unedig, sef ei 'Ddatganiad ar Hawliau Pobloedd sy'n perthyn i Leiafrifoedd Cenedlaethol, Ethnig, Crefyddol neu Ieithyddol.'

Mae Erthygl cyntaf y Datganiad yn datgan:

1. *States shall protect the existence and the national or ethnic, cultural, religious and linguistic identity of minorities within their respective territories and shall encourage conditions for the promotion of that identity.*
2. *States shall adopt appropriate legislative and other measures to achieve those ends.*

Mae **Cymuned** yn cyd-synio â Fernand de Varennesin yn ei bapur a luniwyd i Is-Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar hawliau lleiafrifoedd fod:

> *At the very least Article 1 suggests that it is no longer sufficient for a state to claim it has no obligation in respect of linguistic minorities except non-interference in their affairs. Even if the identity of a linguistic minority is not endangered directly because of a state-led policy or some other state conduct, Article 1 gives states a role to play in creating an environment of safety and respect. The minority language must be protected from outside menaces, and the state must encourage conditions for its promotion instead of permitting negative conditions to dominate and pressure a minority. To do otherwise would be contrary to the very essence of human rights: the recognition of the inherent worth and dignity of all human beings, as well as to their diversity.*

1.4 Geilw **Cymuned** ar y Cynulliad Cenedlaethol i wneud datganiad diamwys fod gan gymunedau Cymraeg yr hawl foesol i fodoli.

1.5 Geilw **Cymuned** ar y Cynulliad Cenedlaethol i ddatgan y bydd yng Nghymru gymunedau Cymraeg eu hiaith.

## 2. Nodau Strategol y Cynulliad

2.1 Mae **Cymuned** yn cefnogi nod strategol y Cynulliad Cenedlaethol o greu Cymru ddwyieithog. Mae'r nod honno'n ddibynnol i raddau helaeth ar adnodd ieithyddol y cymunedau Cymraeg eu hiaith. Unigolion a fagwyd yn y cymunedau Cymraeg i raddau helaeth sy'n

staffio'n hysgolion Cymraeg yn yr ardaloedd llai dwys eu Cymraeg, ac sy'n weision sifil Cymraeg eu hiaith yn ein Cynulliad a'n cyrff cenedlaethol.

Eto, nid oes yr un enghraifft yn Ewrop o iaith yn cael ei hadfer ar ôl iddi ddarfod fel iaith bywyd beunyddiol pob cymuned ar ei thiriogaeth ieithyddol hanesyddol. Gan hynny, rydym yn gofyn i'r Pwyllgor roi ei brif bwyslais, pan fydd yn llunio ei adroddiad, ar sicrhau dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol.

2.2 Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn cefnogi twf y Gymraeg y tu allan i'r ardaloedd Cymraeg. Rydym yn llwyr gefnogol i'r ymdrechion hynny. Bydd eisiau i'r Pwyllgor, wrth lunio ei strategaeth ar gyfer hyrwyddo'r iaith y tu allan i'r ardaloedd Cymraeg, gofio pwyslais cynllunwyr iaith fod yn rhaid cynyddu'r niferoedd sy'n trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant fel mamiaith, yn hytrach na dibynnu ar ysgolion i ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn unig. Bydd eisiau sefydlu'r Gymraeg ar lefel y gymdogaeth yn yr ardaloedd hyn, a rhaid peidio â chael ein bodloni gan dwf y Gymraeg yn y system addysg, a meddwl nad oes angen gwneud rhagor. Un darn yn unig o glytwaith ieithyddol ydyw. Ni fydd ysgolion yn unig byth yn achub unrhyw iaith.

At hynny, dylid cefnogi'r Mentrau Iaith sydd wedi esblygu'n ddiweddar. Dylid hefyd sefydlu rhwydwaith o ganolfannau iaith lleol. Mae hyn wedi digwydd ar lefel eang iawn mewn gwledydd eraill; gyda sefydlu dros 200 o ganolfannau iaith yng Ngwlad y Basg, a'r *kohanga reos* (nythod iaith) ymhlith y Maori yn Seland Newydd.

2.3 Efallai y dylai'r Cynulliad ganolbwyntio ar yr ardaloedd hynny y tu allan i'r ardaloedd Cymraeg lle mae canran uchel o blant yn mynychu ysgolion Cymraeg. Dylid ymestyn cynllun trosglwyddiad iaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg trwy Gymru, gan ganolbwyntio ar gyn-ddisgyblion ysgolion Cymraeg a ddysgodd y Gymraeg fel ail iaith ac sydd ar fin cael plant eu hunain.

Os yw'r Gymraeg i fyw y tu allan i'r ardaloedd Cymraeg, mae'n rhaid cynorthwyo pobl a ddysgodd y Gymraeg fel ail iaith i drosglwyddo'r Gymraeg fel mamiaith i'w plant.

## 3. Y Broblem sy'n Wynebu'r Gymraeg

3.1 Y iaith Gymraeg fel prif iaith y cymunedau Cymraeg hynny sy'n bodoli ar hyn o bryd. Nid oes gwrthdrawiad rhwng y gred honno a chydnabyddiaeth mai Saesneg yw prif iaith cymunedau eraill yng Nghymru, fod y Cymry di-Gymraeg yn Gymry lawn cymaint â'r Cymry

Cymraeg, fod y Gymraeg yn iaith a siaredir y tu allan i'r ardaloedd Cymraeg, nag ychwaith fod Cymru yn wlad aml-ieithyddol.

3.2 Er hynny i gyd, rhaid sylweddoli fod sefydlogi cymunedau Cymraeg eu hiaith yn gwbl greiddiol i ddyfodol yr iaith Gymraeg. Yn *Reversing Language Shift*, a ystyrir fel y prif waith ym maes adfer ieithoedd lleiafrifol, honna Joshua Fishman fod rhaid cadw iaith yn hyfyw yn gymunedol:

> *Instead of being the language of linguistically isolated families (however numerous and large these may come to be), Xish (h.y. yr iaith leiafrifol) must also become the language of interfamily interaction, of interaction with playmates, neighbors, friends and acquaintances. Via demographic concentration, those who […] are organized only on an individual family basis strive to attain an even higher form of social organization: beginning with family they attain community. Most languages of the world are rather limited, both numerically and sociofunctionally, but are self-perpetuating on this very basis and it is truly foundational if further, higher order Reversing Language Shift efforts are to be successfully pursued.*

Mae **Cymuned** yn cyd-synio â'r pwyslais hwn ar y Gymraeg fel iaith ymwneud pobl â'i gilydd. Cytunwn â Fishman mai'r hyn sy'n bwysig am gymunedau Cymraeg yw eu bod yn cynnig i'r Gymraeg 'the informal daily life of a speech community'.

3.3 Honna Fishman yr adferir iaith leiafrifol trwy sefydlogi cymunedau ieithyddol; gan eu diffinio fel y cwlwm rhwng aelwyd, teulu a chymdogaeth. Oherwydd bod hyn yn dasg anodd, ceir tuedd weithiau gan ymgyrchwyr iaith i bwyso am fuddugoliaethau sy'n haws eu cyrraedd megis darpariaeth yn yr iaith leiafrifol mewn llywodraeth, y cyfryngau ac ym maes statws cyhoeddus.

Pwysleisia Fishman na allai'r rhain fyth gymryd lle y gymuned ieithyddol naturiol.

3.4 O gymhwyso dadansoddiad Fishman i Gymru, gellir gweld mai hanes y mudiad iaith fu pwyso am fuddugoliaethau corfforaethol neu 'symbolaidd' megis arwyddion ffyrdd dwyieithog, S4C a Deddf Iaith Newydd yn hytrach na gwarchod ac amddiffyn sail tiriogaethol cymunedau naturiol Cymraeg.

O hyn ymlaen, bydd eisiau gwneud gwarchod y cymunedau naturiol Cymraeg sy'n weddill yn brif nod ein hymdrechion i adfer y Gymraeg os yw'r iaith i fyw.

## 4. Y Cymunedau Cymraeg

4.1 Wrth graffu ar y rhesymau am y dirywiad yn nifer a dwysedd cymunedau Cymraeg eu hiaith, gellir gweld fod dwy ffactor sosio-ieithyddol ar waith:

1. Newid demograffig
2. Anallu cymunedau Cymraeg i reoli sgil-effeithiau ieithyddol y newid demograffig hwnnw yn effeithiol

Mae'r newid demograffig yn ffrwyth symudiad poblogaeth i ddau gyfeiriad.

4.2 Mewnfudo. A hithau'n wlad eithriadol o hardd, mae Cymru'n gyrchfan naturiol i bobl sy'n dymuno ymgartrefu yng nghefn gwlad. Mae mewnfudo i gefn gwlad yn ffenomen gyffredin yn y byd gorllewinol, ond fe ddwg newidiadau ieithyddol pellgyrhaeddol yn ei sgil. Cred **Cymuned** fod rhaid i lywodraeth Cymru gydnabod ffenomen mewnfudo a chynllunio ar ei chyfer, yn union fel y gwneir mewn gwladwriaethau Ewropeaidd eraill, ac fel y cydnabuwyd eisoes gan adroddiad a gomisiynwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd.

4.3 Allfudo. Mae'r ardaloedd Cymraeg eu hiaith ar hyn o bryd yn wynebu argyfwng economaidd. Mae diffyg swyddi yn golygu fod pobl, yn enwedig pobl ifanc, yn gorfod ymadael. Fe ellid dadlau fod diboblogi wedi bod yn nodwedd ar yr ardaloedd hyn ers canrif a mwy bellach, ond cyflymwyd y broses yn ddiweddar gan fethiannau mewn tri sector cyflogaeth hollbwysig.

i Mae'r dirywiad tymor hir yn y nifer a gyflogid gan y diwydiant amaethyddol wedi cyflymu'n aruthrol yn y pum mlynedd diwethaf. Bu amaethyddiaeth yn asgwrn cefn i'r Gymraeg erioed.

ii Nid yw'r ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn cynnig ond ychydig gyfleoedd i ddatblygu gyrfaoedd proffesiynol. Ar yr un pryd, mae Caerdydd wedi datblygu ystod eang o swyddi proffesiynol y mae'r Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer. Canlyniad hyn yw bod ieuenctid yr ardaloedd Cymraeg wedi mudo i Gaerdydd *en masse* gan wanhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn ddifrifol.

iii Mae'r ardaloedd Cymraeg mwyaf poblog (Cwm Gwendraeth, Dyffryn Aman, Blaenau Ffestiniog, Dyffryn Nantlle, Dyffryn Ogwen] yn ôl-ddiwydiannol, ac yn dioddef o broblemau dybryd o ran diffyg cyflogaeth.

4.4 Gellir gweld felly fod y cymunedau Cymraeg yn wynebu dwy duedd

ddemograffig ar yr un pryd. Mae siaradwyr Cymraeg yn gadael, ac mae hyn yn arbennig o wir am siaradwyr Cymraeg sydd yn oedran magu plant, sef yr oedran pwysicaf oll o ran trosglwyddo'r iaith o genhedlaeth i genhedlaeth yn llwyddiannus. Ar yr un pryd, mae siaradwyr Saesneg yn dod i mewn, ond oherwydd natur ddi-rym y gymuned Gymraeg frodorol, mae'n anodd eu cymhathu'n ieithyddol.

4.5 Yn y cyd-destun yma, y mae'n angenrheidiol i gyflwyno mesurau ieithyddol cryf fel y gall ymfudwyr Saesneg eu hiaith ddysgu'r Gymraeg a dod yn rhan naturiol o'u cymunedau newydd.

4.6 Mae **Cymuned** yn credu y dylid gweithredu cynllun triphlyg i fynd i'r afael â'r argyfwng hwn os yw'r Gymraeg i oroesi fel iaith gymunedol; sef ym meysydd tai a chynllunio, datblygu economaidd a chynllunio ieithyddol.

4.7 Rydym wedi dosrannu'r categorïau hyn o dan y penawdau Tai, Gwaith ac Iaith.

4.8 Nid oes oblygiadau cyllidol i rai o'r argymhellion isod. Mae eraill gyda goblygiadau cyllidol sylweddol. Ni fydd modd cyflawni'r amcanion hyn o lynu at gynlluniau gwariant y Weithrediaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf fel y maent ar hyn o bryd.

Anfantais mawr y gwariant ar y Gymraeg yw iddi gael ei seilio ar yr ychydig gymhorthdal ieithyddol a roes Llywodraeth Geidwadol yr wythdegau, o dan ofal Syr Wyn Roberts, i brosectau diwylliannol.

Cafodd y cymorthdaliadau hyn eu trosglwyddo i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ond nid cymorthdaliadau adfer iaith oeddynt hwy, ond yn hytrach grantiau i gyrff diwylliannol (Yr Eisteddfod Genedlaethol, Cyngor Llyfrau Cymraeg, ac ati).

Yn ôl Cyllideb Ddrafft y Cynulliad ar gyfer 2002-2003, fe fydd £7.28m yn cael ei wario yn uniongyrchol ar yr iaith Gymraeg. Gan fod y Gyllideb gyfan yn cynnwys gwariant o £10.458biliwn, gallwn weld y bydd gwariant uniongyrchol ar yr iaith Gymraeg ym 2002-2003 yn 0.069% yn unig o'r Gyllideb.

Mae **Cymuned** o'r farn fod hyn yn hollol ddiffygiol. Mae unrhyw fodel o wariant sy'n arwain at sefyllfa lle nad yw ond 0.069% o gyllideb y wlad yn cael ei neilltuo ar gyfer cynllunio ieithyddol yn dweud y cwbl am y lle ymylol a oedd gan yr iaith Gymraeg mewn llywodraeth cyn datganoli. Dyma etifeddiaeth y drefn Thatcheraidd a dylid ei thrin hi felly.

Cred **Cymuned** y dylai'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru gefnu ar y model hwn o wariant yn gyfangwbl. Dylid yn hytrach seilio gwariant ar yr iaith Gymraeg ar safonau rhyngwladol. Dylid bod yn realistig a chydnabod ein bod yn trafod gwariant uniongyrchol o ryw £100-200m y flwyddyn ym maes cynllunio iaith yn unig, neu swm sy'n cyfateb efallai i 1-2% o gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol.

Dylai costau tai a gwaith gael eu hystyried ar wahân, nid fel gwariant ar yr iaith ond fel buddsoddiad mewn datblygiad polisi yn y meysydd hynny.

## 5. Tai

5.1 Bydd **Cymuned** yn cyflwyno papur i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn nes ymlaen heddiw (7 Tachwedd 2001). Gan fod y dystiolaeth hon hefyd yn berthnasol i'r pwyllgor hwn, amgaeir copi o'r papur fel Atodiad A.

## 6. Gwaith

6.1 Mae'r ardaloedd Cymraeg o dan anfantais economaidd. Dyma rai o gymunedau mwyaf difreintiedig gorllewin Ewrop.

6.2 Oddi mewn i'r ardaloedd Cymraeg hyn, bu tuedd i siaradwyr Cymraeg lenwi'r swyddi is eu cyflog a statws, gyda swyddi gwell, yn enwedig yn y sector breifat, yn cael eu llenwi gan bobl ddi-Gymraeg o'r tu allan. Cyfeiriwyd at y sefyllfa hon gan academyddion fel y 'gwahaniad diwylliannol yn y gweithlu'.

> *The 1981 census figures indicate that the non-Welsh-born were proportionally over-represented in professional and managerial categories as well as in the supervisory categories. In contrast Welsh-speakers are over-represented in the unskilled, semi-skilled and agricultural categories. Even when we make allowance for the slight disparity between the size of the respective groups this observation holds true.*

Yng Ngwynedd, er enghraifft, cafodd dros 50% o'r rheolwyr yn y sector breifat eu geni y tu allan i Gymru. Mae llawer o resymau am anallu siaradwyr Cymraeg i dreiddio i'r farchnad gyflogaeth: y ffaith fod newydd-ddyfodiaid yn meddu ar fwy o gyfalaf na'r boblogaeth leol, gan fedru prynu busnesau; strwythur canghennog

llawer o gwmnïau Prydeinig sy’n penodi rheolwyr o’r canol; ac ymddieithriad y Cymry Cymraeg fel grwp ethno-ieithyddol oddi wrth y gyfundrefn gyfalafol Brydeinig.

6.3 Mae’r sefyllfa economaidd wedi cael effaith ieithyddol. Mae wedi golygu na all y boblogaeth gynhenid aros yn eu cynefin.

6.4 Ond nid digon darparu swyddi. Mae’r ffaith nad yw siaradwyr Cymraeg yn medru treiddio i rai sectorau cyflogaeth yn golygu fod yn rhaid mynd â chynllunio ieithyddol a datblygu economaidd law-yn-llaw. Ceir cynsail i ddatblygu economaidd sy’n ceisio gwneud iawn am annhegwch cymdeithasol gyda’r sylw a roddir yn nogfennau Amcan Un i fuddiannau merched, pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig. Mae’n werth nodi fod siaradwyr Cymraeg hefyd o dan anfantais cyffelyb o ran cyflogaeth mewn sawl ardal.

6.5 Heb wella perfformiad economaidd siaradwyr Cymraeg fel grwp, ni fydd modd codi perfformiad economaidd yr ardaloedd Cymraeg yn sylweddol.

6.6 Cred **Cymuned** fod angen nifer o gamau pendant i fynd i’r afael â’r methiannau economaidd hyn.

6.7 Dylid sefydlu Awdurdod Datblygu Economaidd penodol ar gyfer yr ardaloedd Cymraeg wedi ei seilio naill ai ar fodel Cymreig, fel y Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, neu ar fodel Ewropeaidd, megis *Udaras na Gaeltachta* yn Iwerddon. Byddai’r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu a datblygu cwmnïau cynhenid, denu mewnfuddsoddiad addas, a sicrhau nad yw datblygu economaidd yn milwrio yn erbyn buddiannau’r iaith Gymraeg.

6.8 Dylid cynnal adolygiad brys i’r ffordd y mae Arian Amcan Un yn cael ei wario yn yr ardaloedd Cymraeg.

6.9 Ymhellach, fe ddylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg fod yn sylwebydd statudol ar Bwyllgor Monitro Amcan Un, ac fe ddylai hyrwyddo’r iaith Gymraeg fod yn ystyriaeth wrth bennu prosiectau yn yr ardaloedd Cymraeg. Gan fod siaradwyr Cymraeg dan anfantais yn economaidd, dylid gosod targedau ar gyfer gwella eu perfformiad economaidd, yn union fel y gwneir gyda merched, pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig. Rydym o’r farn y bu’r *Single Programming Document* ar gyfer Amcan Un yn aneffeithiol yn ei thriniaeth o bwysigrwydd y Gymraeg, a bod rhaid gwneud iawn am hynny.

6.10 Dylid cael gwell cydweithrediad rhwng asiantaethau menter, cyrff datblygu cymunedol a’r mentrau iaith, er mwyn sicrhau ffyniant economaidd cymunedau Cymraeg.

6.11 Dylid cynnig benthyciadau di-log neu log isel i gwmnïau cynhenid i fuddsoddi mewn ymchwil, marchnata a datblygu cynnyrch.

6.12 Dylid annog y sector cyhoeddus i brynu rhagor o’u gwasanaethau a’u nwyddau gan gyflenwyr lleol. Dylai’r sector cyhoeddus ystyried mwy na chost yn unig wrth bennu cytundeb. Dylai sefydlogi’r iaith Gymraeg fod yn rheswm dilys dros roi cytundeb i gwmni lleol yn hytrach na chwmni o’r tu allan. Os dyfernir gwaith i is-gontractwr allanol, dylai’r is-gontractwr hwnnw orfod ufuddhau i bolisi iaith y corff cyhoeddus sy’n contractio iddo.

6.13 Dylid datblygu rhaglenni penodol ynghyd â chymorth ariannol i gymell brodorion sydd wedi gadael yr ardal oherwydd diffyg gwaith i ddychwelyd. Gellid creu e-restr byd-eang o siaradwyr Cymraeg a’u sgiliau, a’i defnyddio i lenwi bylchau sgiliau angenrheidiol yn yr ardaloedd Cymraeg.

6.14 Dylid annog rhagor o ddatblygiadau tebyg i’r Canolfannau Dysgu Gydol Oes sydd wedi cael eu sefydlu ym Mlaenau Ffestiniog, Penygroes a Chaernarfon. Dylai’r Cynulliad ryddhau rhagor o adnoddau i’r awdurdodau lleol ac ELWa i ddatblygu canolfannau tebyg drwy’r ardaloedd Cymraeg.

6.15 Dylid ceisio Cymreigio’r diwydiant twristiaeth, a datblygu twristiaeth ddiwylliannol.

6.16 Dylid cefnogi pob ymdrech i adfywio a diogelu’r diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Mae gwarchod y fferm deuluol o bwysigrwydd sylfaenol i ddyfodol y Gymraeg. Mae **Cymuned** yn datblygu ei bolisi amaethyddol ar hyn o bryd, a dymuna ei gyflwyno i’r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig maes o law.

6.17 Dylid sefydlu Cronfa Gymunedol benodol ar gyfer cymunedau cefn gwlad sydd yn dymuno ffurfio cwmnïau cydweithredol i warchod gwasanaethau penodol yn eu hardaloedd megis y siop, y t tafarn ac yn y blaen. Yn yr un modd, dylid sefydlu Banc Datblygu Cymunedol ar gyfer buddsoddi mewn busnesau cynhenid. Dylid hefyd cefnogi Undebau Credyd.

6.18 Dylid cydnabod yn onest nad yw rhai o’n pobl ifanc yn dymuno byw yng nghefn gwlad. Yn hytrach na cholli’r bobl ifanc hyn i Gaerdydd neu fan arall, dylid datblygu rhai trefi yn yr ardaloedd Cymraeg fel canolfannau fyddai’n apelio at bobl ifanc trefol eu naws.

6.19 Dylid datblygu’r ‘trefi twf’ hyn yn economaidd, gan symud pencadlysoedd mudiadau a sefydliadau Cymraeg yno, sefydlu parciau busnes isel eu rhent, pennu polisi pendant o ddatblygu diwylliant ieuenctid Cymraeg, a chefnogi mentrau diwylliannol-gymunedol fel y Sesiwn Fawr yn Nolgellau. Yn y bôn, dylai fod yn bosib byw bywyd ‘cosmopolitaidd’ yn yr ardaloedd Cymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg.

6.20 Dylai’r Cynulliad orchymyn yr asiantaethau a’r cyrff cyhoeddus hynny sy’n derbyn arian

gan y Cynulliad ac sy'n ddibynnol ar yr iaith Gymraeg am eu bodolaeth i adleoli o Gaerdydd i ardal Gymraeg.

6.21 Dylai'r Cynulliad gychwyn trafodaethau ar unwaith gyda S4C a'r Llywodraeth yn San Steffan gyda'r nod o symud S4C i ardal Gymraeg.

6.22 Dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg symud i ardal Gymraeg.

6.23 Dylai'r Cynulliad ofyn i bob corff cyhoeddus a noddir ganddo i wneud astudiaeth dichonoldeb yn cyfiawnhau eu rhesymau am gadw eu pencadlys yng Nghaerdydd. Dylai'r cyrff hynny sy'n cyflogi'r ganran fwyaf o siaradwyr Cymraeg symud i ardal Gymraeg. Dylai cyrff eraill gael eu symud i Wrecsam, Conwy, Abertawe neu gymunedau difreintiedig yn y cymoedd.

6.24 Mae mawr angen cynyddu nifer y gweision sifil sy'n medru'r Gymraeg. Ond, yn hytrach na denu pobl ifanc dalentog o'r ardaloedd Cymraeg i Gaerdydd wrth wneud hyn, dylid datganoli rhan o'r gwasanaeth sifil o Gaerdydd, gan ddefnyddio e-dechnoleg, fideo-gynadledda, cynadledda ffôn ac ati. Dylid sefydlu canolfan i'r gwasanaeth sifil mewn ardal Gymraeg a cheisio lleoli nifer helaeth o'r staff Cymraeg eu hiaith a benodir yn y ganolfan honno.

6.25 Dylid symud gwasanaeth cyfieithu a chofnodi y Cynulliad o Gaerdydd yn syth, gan adleoli'r adrannau hyn mewn ardal Gymraeg.

6.26 Fel yr unig gymuned Gymraeg 'ddiogel' yng Nghymru sydd ar ôl, credwn fod sefydlogi economi Caernarfon a'r cylch yn gwbl sylfaenol nid yn unig i ddyfodol yr iaith Gymraeg, ond hefyd i etifeddiaeth ieithyddol a diwylliannol Ewrop.

6.27 Oherwydd ei lleoliad daearyddol, ei natur ôl-ddiwydiannol, colli atomfa Trawsfynydd, a diffyg gwaith yn gyffredinol, rydym yn pryderu'n fawr am stad yr economi yn ail dref fwyaf y Gymru Gymraeg, sef Blaenau Ffestiniog. Pryderwn mewn modd tebyg am ddifyg gweithgarwch economaidd mewn trefi Cymraeg eraill.

6.28 Dylai Awdurdod Datblygu Cymru enwi cymunedau trefol Cymraeg penodedig eraill, yn eu plith, Llangefni, Pwllheli, Y Bala, Dolgellau, Tregaron, Aberteifi, Machynlleth a Llanbedr Pont Steffan, ac yna gosod targedau ar gyfer datblygu economaidd yno. Dylai hefyd enwi pentrefi Cymraeg penodedig megis Crymych, Llandysul, Brynaman, Pontyberem, Dinas Mawddwy, Trawsfynydd, Penrhyndeudraeth, Nefyn, Llanberis, Penygroes, Bethesda, Gaerwen, Llanrwst, Llanbrynmair ac ati, gan osod targedau ar gyfer datblygiadau economaidd yno hefyd.

Oherwydd fod y cymunedau Cymraeg cryfaf yn aml yn bell yn ddaearyddol o farchnadoedd Prydeinig ac Ewropeaidd, ni fydd gosod targedau economaidd ar gyfer rhanbarthau, neu hyd yn oed siroedd, yn gwneud y tro. Ni fyddai gosod targed ar gyfer Gwynedd, er enghraifft, yn ddigon da, gan y gallai'r swyddi i gyd fynd i Fangor, gan adael Llyn, er enghraifft, heb waith.

## Iaith

7.1 Oni ellir mynd i'r afael â'r newidiadau demograffig enfawr yn y Gymru Gymraeg a sefydlu polisïau pwrpasol yn y meysydd tai a chyflogaeth, ni fydd y Gymraeg yn goroesi fel iaith gymunedol, ac oni fydd yn goroesi fel iaith gymuned, ymhen amser, bydd yn peidio â bod fel iaith.

7.2 Ond hyd yn oed pe sefydlogid y boblogaeth, byddai rhaid gweithredu camau neilltuol ym maes cynllunio iaith. Yn y rhan fwyaf o'r Gymru Gymraeg wledig, mae'r boblogaeth ddi-Gymraeg ymron â mynd yn fwyafrif. Gellir gweld y duedd ieithyddol hon yn y ffigyrau ar gyfer siaradwyr mamiaith ymhlith plant 5 oed. Yng Ngwynedd yn 2000, dim ond gan 54% o blant 5 oed y siaredid y Gymraeg ar yr aelwyd; ym Môn gan 33%; yng Ngheredigion, 28%; ac yn Sir Gaerfyrddin, 22%. Yn amlwg felly os yw'r Gymraeg i fod yn iaith gymunedol fyw i'r genhedlaeth nesaf bydd angen gweithredu cynlluniau adfer iaith yn yr ardaloedd Cymraeg.

7.3 Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng ieithyddol hwn, bydd angen i'r Cynulliad ddangos arweiniad gwleidyddol neilltuol. Cred **Cymuned** mai dyma'r cyfle olaf i 'achub' yr iaith Gymraeg. Ac eithrio sefydlu Gwladwriaeth Israel, sydd â chefndir ieithyddol cymdeithasegol cwbl wahanol i eiddo Cymru, nid oes yr un enghraifft yn y byd o iaith yn cael ei hadfer yn iaith gymunedol wedi iddi ddarfod fel iaith bob dydd ymhob rhan o'i thiriogaeth hanesyddol.

7.4 Er mwyn adfer yr iaith Gymraeg yn ei chadarnleoedd, cred **Cymuned** y dylid gweithredu'r polisïau canlynol isod:

## Addysg Statudol

8.1 Cred **Cymuned** fod addysg statudol Gymraeg yn hanfodol os ydym i atgyfnerthu gallu'r gymuned i sicrhau trosglwyddiad iaith llwyddiannus o genhedlaeth i genhedlaeth. Ein bwriad yw cyflwyno tystiolaeth lawn i'r Pwyllgor Addysg yn ei arolwg o addysg Gymraeg statudol. Braslun yn unig o'n hargymhellion ar gyfer addysg a geir yn y fan hon.

8.2 Rydym yn ymwybodol o'r gwaith ymchwil cynhwysfawr a gyflawnwyd eisoes yn y maes addysg, a phwyswn ar y Cynulliad i sefydlu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ar sail yr ymchwil hwnnw.

8.3 Credwn y dylai pob plentyn yng Nghymru gael y cyfle i fod yn hyderus ddwyieithog yn 16 oed. Yn yr ardaloedd Cymraeg, byddai hepgor darparu’r cyfle hwn gyfystyr â gwadu hawl i blant chwarae rhan lawn yn eu cymuned.

8.4 Er mwyn cyflawni hyn yn effeithiol, geilw **Cymuned** ar y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau fod y drefn addysg yn yr ardaloedd Cymraeg yn normaleiddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysg disgyblion rhwng 3 ac 16 oed.

8.5 Dylid diddymu'r drefn bresennol o ffrydio ieithyddol oddi mewn i ysgolion. Nid yw plant o aelwydydd di-Gymraeg sydd yn dilyn addysg gyfrwng Saesneg yn gadael yr ysgol yn rhugl yn y ddwy iaith.

8.6 Dylid ymestyn patrwm Cyngor Sir Gwynedd o ddarparu canolfannau iaith arbennig er mwyn trochi plant newydd-ddyfodiaid di-Gymraeg i’r ardaloedd Cymraeg eraill. Mae angen estyn y cynllun hwn i’r sector uwchradd hefyd.

8.7 Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth a roddir yn Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft Cyngor Cenedlaethol ELWa i bwysigrwydd dwyieithrwydd yng Nghymru; yn croesawu'r datganiad o fwriad am ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn Nogfen Ymbaratoi'r Cynulliad Cenedlaethol, *Y Wlad sy'n Dysgu*. Dylai’r Cynulliad weithredu'r strategaethau hyn, a strategaethau pellach, fel y byddant yn cyfrannu tuag at gryfhau'r iaith Gymraeg fel iaith gymunedol yn yr ardaloedd Cymraeg.

8.8 Dylai’r Cynulliad fynnu bod darparwyr addysg sy'n derbyn cyllid cyhoeddus ar gyfer darpariaeth addysg alwedigaethol, addysg gymunedol, ac addysg gydol oes yn ymdrin â'r iaith Gymraeg fel pwnc llorweddol.

8.9 Byddai hyn yn golygu bod darparwyr yn gorfod cynnig cyrsiau Cymraeg neu ddwyieithog yn yr ardaloedd Cymraeg. Bydd hyn yn gofyn am gydweithio ar lefel genedlaethol er mwyn osgoi dyblygu a gwastraffu adnoddau ac yn arwain at gyflwyno dulliau addysgu a dysgu arloesol. Bydd hefyd yn sicrhau dilyniant a datblygiad addysgol priodol a chyfartal nad yw'n bodoli ar hyn o bryd i unigolion yn yr ardaloedd Cymraeg.

8.10 Dylid sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg a chymreigio addysg alwedigaethol. Credwn y bydd hyn yn gwneud mwy o siaradwyr Cymraeg yn gymwys ar gyfer ystod ehangach o swyddi proffesiynol yn yr ardaloedd Cymraeg nag ar hyn o bryd. Dylai canolfannau y Coleg Ffederal fod yn y colegau ym Mangor, Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan a Chaerfyrddin.

**Cymhathu Oedolion di-Gymraeg**

9.1 Cred **Cymuned** fod gan newydd-ddyfodiaid i'r ardaloedd Cymraeg gyfrifoldeb sifig i ddysgu'r iaith Gymraeg. Credwn yn ogystal fod gan yr ardaloedd Cymraeg hwythau gyfrifoldeb; cyfrifoldeb i hwyluso'r gwaith o ddysgu Cymraeg i newydd-ddyfodiaid, a'i gwneud mor ddeniadol, effeithiol a chyfleus ag sy'n bosib. Er mwyn galluogi cymunedau Cymraeg i wneud hyn, bydd rhaid i'r Cynulliad wneud buddsoddiad ariannol sylweddol.

9.2 Yn y cyd-destun hwn, mae **Cymuned** yn croesawu datganiadau diweddar gan y Blaid Lafur, y Blaid Geidwadol a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn cydsynio â dymuniad yr Ysgrifennydd Cartref, David Blunkett, i weld newydd-ddyfodiaid yn dysgu iaith eu cymuned newydd.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref, 'I believe we need to educate new migrants in citizenship and help them to develop an understanding of our language, democracy and culture.' Croesawodd Ysgrifennydd Cartref yr Wrthblaid, Oliver Letwin, y cynlluniau gan ddweud 'we welcome them'; ac ategodd yr Aelod Seneddol Llafur, Ann Cryer, ei chefnogaeth hithau, 'it would also encourage, in my view, integration.' Dywedodd llefarydd, Robin Banerji, ar ran y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, 'It is a good idea on general principle […] anything that helps people understand the place they are coming to must be welcome.'

9.3 Mae **Cymuned** yn galw ar y Cynulliad i gefnogi'r consensws newydd ym Mhrydain dros ddysgu iaith y gymuned i newydd-ddyfodiaid wrth ddatgan ei ddymuniad i ddysgu Cymraeg i newydd-ddyfodiaid yn yr ardaloedd Cymraeg. Cred **Cymuned** y byddai hyn yn hwyluso cyfle cyfartal yn ogystal â diogelu'r iaith Gymraeg.

9.4 Nid ydym o'r farn fod y system bresennol o ddysgu Cymraeg i newydd-ddyfodiaid yn un llwyddiannus. Dim ond 1.7% (sef 2,606 o unigolion) o'r boblogaeth ddi-Gymraeg mewn rhanbarth Gymraeg fel yr hen Sir Ddyfed a oedd yn gofrestredig ar gyrsiau Cymraeg mewn blwyddyn pryd gwnaed astudiaeth academaidd. Trwy Gymru gyfan, dim ond 94 o unigolion a lwyddodd mewn arholiadau Cymraeg Safon Uwch i oedolion yn 2000. Gallai cyfradd gadael cyrsiau iaith yng ngwledydd Prydain fod yn uchel; oddeutu 90% yn ôl rhai arbenigwyr.

O ystyried cyfrifoldeb y Cynulliad i sicrhau parhad cymunedau naturiol Cymraeg yn wyneb newidiadau demograffig enfawr, mae'r ffigyrau hyn yn gyfan gwbl annerbyniol.

9.5 Mae angen ymchwilio ar frys i'r ffactorau a fyddai'n cymell newydd-ddyfodiaid, a'r rhai gyda phlant yn arbennig, i ddysgu'r Gymraeg yn effeithiol.

9.6 Dylid sefydlu rhwydwaith o ganolfannau iaith, ar batrwm y ganolfan iaith Popeth Cymraeg yn Ninbych, ar gyfer gweithgarwch ar lefel sirol, yn ogystal â sefydlu rhwydwaith o diwtoriaid iaith cymunedol ar gyfer gweithgarwch mwy lleol.

9.7 Dylai'r canolfannau a'r tiwtoriaid hyn hefyd ddarparu cyrsiau sy'n rhoi braslun o hanes a chefndir diwylliannol yr ardal y mae newydd-ddyfodiad wedi symud iddi. Fe allai'r rhain gyfateb i'r 'gwersi dinasyddiaeth' y mae'r Llywodraeth am eu datblygu trwy wledydd Prydain.

9.8 Dylai tiwtoriaid iaith cymunedol drefnu sesiynau mewn canolfannau cymunedol lleol, megis yr ysgol gynradd leol, lle gall rhieni di-Gymraeg ddysgu Cymraeg ochr-yn-ochr â'u plant. Dyma'r math o gydlyniad rhwng y teulu, y plentyn a'r gymdogaeth sy'n hanfodol i barhad y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae **Cymuned** yn croesawu cynlluniau'r Democratiaid Rhyddfrydol i sefydlu canolfannau a fyddai'n dysgu Cymraeg i rieini ochr-yn-ochr â'u plant.

9.9 Dylid cynnal cynllun peilot mewn tri neu bedwar o bentrefi Cymraeg mewn gwahanol rannau o Gymru a fyddai'n ceisio cymhathu newydd-ddyfodiaid. Dylid ceisio sêl bendith y Cyngor Cymuned leol, ynghyd ag arweinwyr cymunedol eraill, ac adfer ysbryd cymunedol y pentref hwnnw o gwmpas y nod o ddysgu'r iaith Gymraeg i newydd-ddyfodiaid a gwella caffael y rheini nad ydynt yn gwbl cadarn eu Cymraeg.

9.10 Dylid cydnabod yn gyhoeddus y cyfraniad i hyfywedd ieithyddol y cymunedau Cymraeg gan unigolion a symudodd i Gymru o rannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol ac sydd wedi dysgu Cymraeg. Dylid ariannu prosiect lle bydd y sawl sydd wedi dysgu'r iaith yn llwyddiannus yn cysylltu â newydd-ddyfodiaid eraill, i drafod gyda nhw sut yr aethant ati i ddysgu Cymraeg, yr ymateb a gawsant, a'u teimladau am hunaniaeth ddiwylliannol eu cymuned newydd.

9.11 Dylai awdurdodau lleol yn yr ardaloedd Cymraeg, ynghyd â chyrff cyhoeddus sy'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, dderbyn cyllid ychwanegol er mwyn eu galluogi i ryddhau aelodau di-Gymraeg o'u staff ar gyrsiau dysgu Cymraeg dwys. Dylent drefnu system fentora yn y gweithle, wedi i'r staff hyn ddychwelyd, fel y cânt

gyfle i ymarfer eu hiaith bob dydd. Dylid ystyried cyfrifoldebau mentoriaid yn gyfystyr â chyfrifoldebau eraill ac adlewyrchu hynny yn y tâl a gânt. Rhaid sicrhau bod y mentoriaid hyn yn derbyn hyfforddiant llawn.

9.12 Dylai busnesau preifat a’r hunangyflogedig dderbyn gostyngiad ar eu treth os ydynt yn mynychu, neu’n rhyddhau aelodau o staff i fynychu, cyrsiau dysgu Cymraeg. Dylid rhyddhau pobl am gyfnodau estynedig fel y gwneir yng Ngwlad y Basg. Dylai’r un system fentora ag yn 8.10 uchod fod ar gael mewn cwmnïau.

9.13 Dylid cynorthwyo’r cwmnïau i gyflogi staff llanw addas pan fydd eu staff ar gyrsiau dysgu Cymraeg.

9.14 Dylai’r cyrsiau hyn fod ar gael yn rhad ac am ddim i newydd-ddyfodiaid a dylid rhyddhau adnoddau newydd i sicrhau hynny.

9.15 Dylai fod cynlluniau cadarn ar gael ar ôl i gwrs gael ei gwblhau yn sicrhau fod pobl yn dechrau defnyddio’r Gymraeg yn eu gwaith mewn ffordd weithredol.

9.16 Dylid sefydlu corff yn cyfateb i HABE (y Sefydliad ar gyfer Llythrennedd a Basgeiddio Oedolion] Gwlad y Basg; corff penodol a fydd yn cydlynu’r ymdrechion hyn i ddysgu Cymraeg i newydd-ddyfodiaid yn yr ardaloedd Cymraeg.

9.17 Wedi i newydd-ddyfodiaid ymdrechu i ddysgu Cymraeg, bydd rhaid i drigolion lleol ysgwyddo cyfrifoldeb o gymdeithasu â’r siaradwyr Cymraeg newydd. Yn dilyn cyfnod hir o gyfathrebu mewn Saesneg â’r newydd-ddyfodiaid, bydd tuedd gan rai pobl leol i siarad Saesneg â hwy o hyd. Er mwyn goresgyn y broblem hon, dylid sefydlu tasglu i ymchwilio i ffyrdd o hwyluso cymdeithasu rhwng siaradwyr Cymraeg mamiaith ac ail iaith. Dylid cynnal digwyddiadau cymdeithasol i’r siaradwyr Cymraeg newydd mewn llefydd lle mae pobl leol Gymraeg eu hiaith yn cymdeithasu’n naturiol.

9.18 Bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol i gyflawni’r amcanion hyn. Dylai cynlluniau dysgu sgiliau o’r fath fod yn gymwys i dderbyn Arian Amcan Un.

9.19 Bydd rhaid i’r Cynulliad hefyd ysgwyddo ei ran o’r baich ariannol newydd. Credwn, fodd bynnag, fod hyn yn bris isel i’w dalu am y wobr o atgyfnerthu cymunedau, darparu newydd-ddyfodiaid â sgil hanfodol, a sicrhau dyfodol i’r iaith Gymraeg.

9.20 Cred **Cymuned** fod modd hyrwyddo'r Gymraeg mewn ffordd sy'n atgyfnerthu hyfywedd diwylliannol y gymdeithas ddiwylliannol frodorol, yn ogystal â rhoi cymorth ymarferol i newydd-ddyfodiaid. Credwn unwaith eto felly y gall nod y Cynulliad o hyrwyddo cyfle cyfartal a chreu cymdeithas gynhwysol fynd law-yn-llaw â gwarchod y Gymraeg fel iaith gymunedol.

**Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned**

10.1 Mae mewnfudiad unigolion di-Gymraeg i'r ardaloedd Cymraeg wedi arwain at sefyllfa lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol mewn ystod eang o weithgareddau. Mae angen mabwysiadu camau pendant i gynnal y Gymraeg pan y'i hwynebir gan iaith gryfach.

10.2 Er mwyn cyflawni hyn bydd angen cynlluniau pendant i adfer cymunedau i fod yn gymunedau Cymraeg eu hiaith.

10.3 Dylid cefnogi gwaith y Mentrau Iaith a dylid cefnogi'r alwad am godi eu cyllid yn sylweddol.

10.4 Dylid ystyried adrefnu dalgylchoedd rhai o'r Mentrau Iaith yn ôl angen ieithyddol yn hytrach na hwyluster gweinyddol. Yn Ynys Môn, Dinbych-Conwy a Maldwyn, er enghraifft, ceir ffiniau gweddol bendant rhwng y cymunedau Cymraeg (perfeddwlad Môn, perfeddwlad Dinbych-Conwy, gogledd a gorllewin Maldwyn) ac ardaloedd mwy Saesneg eu hiaith.

10.5 O dan ofal y Mentrau Iaith, dylid datblygu trefn o fugeiliaid neu luosogwyr (*animateurs*) iaith. Byddai'r unigolion hyn yn cynnig arbenigedd cynllunio ieithyddol dwys oddi mewn i gymunedau.

10.6 Dylid sicrhau mai'r Gymraeg yw iaith fewnol awdurdodau lleol yn yr ardaloedd Cymraeg. Dylid sefydlu trefn o'r math yma yng nghynghorau Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin yn syth, gan ddilyn enghraifft Gwynedd. Er mwyn hwyluso hyn, dylid dilyn y patrwm a amlinellir yn Adran 9 i hyfforddi staff di-Gymraeg.

10.7 Dylid buddsoddi'n helaeth mewn offer cyfieithu-ar-y-pryd, a sicrhau fod cyrsiau ar gael i hyfforddi pobl leol a gwirfoddolwyr i'w defnyddio. Mae eisiau normaleiddio'r defnydd o'r offer yma, gan anelu at sefyllfa lle mae pob cyngor cymuned yn yr ardaloedd Cymraeg yn meddu ar offer o'r fath. Dylai'r offer fod ar

gael i’w rhyddhau i fudiadau lleol am ddim neu am dâl bychan.

10.8 Dylid gwneud gwybodaeth o’r Gymraeg yn amod statudol i unigolion sy’n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mewn sawl pentref, mae’r swyddfa bost leol yn darparu’r gwasanaethau hyn. Dylai’r sawl sy’n gweithio mewn swyddfa bost o fewn yr ardaloedd Cymraeg fedru’r Gymraeg.

10.9 Dylid gosod amod statudol ar gwmnïau preifat yn y sector gwasanaethau yng Nghymru i gynnig gwasanaeth Cymraeg. I’r perwyl hwnnw, rydym yn cefnogi galwad Cymdeithas yr Iaith Gymraeg am Ddeddf Iaith Newydd.

10.10 Dylid sefydlu Canolfan Gynllunio Iaith genedlaethol, efallai o dan adain Prifysgol Cymru. Dylai fod yn debyg i ganolfannau rhagoriaeth eraill y Brifysgol, megis y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth. Dyma faes lle gall Cymru fod yn arweinydd byd-eang, gan gyfrannu ar yr un pryd at adfywiad ei chymunedau ei hun.

10.11 Dylid cydnabod y realiti diwylliannol fod eglwysi a chapeli, er gwaethaf dirywiad Anghydffurfiaeth, yn sefydliadau cymunedol grymus o hyd. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn sefydliadau Cymraeg, a dylid manteisio ar yr adnodd ieithyddol-gymunedol y maen nhw yn ei gynnig i’r gymuned. Dylid gofyn i CYTUN ddechrau cynllun peilot mewn rhyw hanner dwsin o gymunedau, lle bydd eglwysi a chapeli lleol yn: casglu tystiolaeth am fywyd cymunedau Cymraeg; ymddiddori ym mywyd cyfan y gymuned, gan gynnwys ei weddau ieithyddol; cefnogi gweithgarwch gwirfoddol cymunedol; ac addasu adeiladau at ddefnydd y gymuned. Dylai eglwysi a chapeli hefyd drefnu gwersi Cymraeg ar gyfer newydd-ddyfodiaid a gweld hyn yn rhan o’u rôl bugeiliol.

10.12 Dylid sefydlu ffederasiwn o glybiau ieuenctid cymunedol naturiol Gymraeg mewn cymunedau dosbarth gweithiol trefol Cymraeg. Teimlwn fod diffyg yn y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ar hyn o bryd gan fod y Clybiau Ffermwyr Ifanc yn rhy wledig ac Urdd Gobaith Cymru yn rhy ddosbarth canol.

10.13 Dylid cefnogi diwylliant ieuenctid Cymraeg. Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru weithredu cynllun yn debyg i gynlluniau yn Ffrainc, lle mae cerddorion a bandiau sy’n chwarae nifer penodedig o gigs mewn blwyddyn yn derbyn lwfans byw. Trist oedd gweld prif fand Cymraeg Cymru, Anweledig, yn chwalu’n ddiweddar oherwydd na fedrent ennill bywiolaeth yn canu. Dylid hefyd dechrau gwaith i gymell tafarnau a chlybiau yn yr ardaloedd Cymraeg a thu hwnt i

chwarae cerddoriaeth Gymraeg.

## Gweinyddiaeth y Cynulliad

11.1 Dylid sicrhau fod y Gymraeg yn ystyriaeth draws-bynciol a llorweddol yn y Cynulliad, yn union fel y gwneir gyda chyfle cyfartal. Ni ddylai’r Gymraeg fod yn ystyriaeth atodol.

11.2 Dylai’r Cynulliad ddatblygu perthynas barhaol gyda gwledydd eraill gydag arbenigedd ym maes cynllunio iaith, megis Gwlad y Basg, Catalunya, Quebec, taleithiau eraill Canada, Iwerddon, Y Ffindir, Gwlad Belg, Seland Newydd, De Affrica ac Unol Daleithiau America. Dylid meithrin y berthynas hon er mwyn chwilio am enghreifftiau o ‘arfer gorau’ rhyngwladol y gellid ei gymhwyso i Gymru.

11.3 Dylid adolygu’r targedau ieithyddol yn *www.cynllunigymru.cymru.gov.uk*, sef yr ymrwymiad i ‘sefydlogi cyfran y siaradwyr Cymraeg a chynnal y twf ymhlith pobl ifanc’ erbyn 2003/4 a cael ‘mwy o siaradwyr Cymraeg, gyda’r mwyaf ymhlith pobl ifanc’ erbyn 2010. Dylid ychwanegu is-gymal ‘yn y cymunedau Cymraeg yn ogystal ag yng Nghymru gyfan’ i’r ddau osodiad. Dylid hefyd ychwanegu is-gymal ‘gan sicrhau hefyd mwy o ddefnydd cymdeithasol o’r Gymraeg’ i’r ddau osodiad.

## Llywodraeth yr Ardaloedd Cymraeg

12.1 Cred **Cymuned** fod Cymru yn genedl, a bod yr iaith Gymraeg yn iaith i Gymru gyfan.

12.2 Credwn hefyd fod yr ardaloedd Cymraeg yn ffurfio rhanbarth ddiwylliannol y tu fewn i Gymru. Credwn y dylai unrhyw fodel a ddefnyddir i ranbartholi Cymru gydnabod y ffaith ieithyddol hwn.

12.3 Mae’r rhanbarthau gweinyddol Cymreig presennol – megis ‘Gogledd Cymru’ a ‘Gorllewin a Chanolbarth Cymru’ - yn rhannu’r cymunedau Cymraeg oddi wrth ei gilydd, yn hytrach na’u huno. Ymhellach, nid yw ffiniau llywodraeth leol ychwaith yn dilyn ffiniau ieithyddol. Ceir cymunedau Cymraeg wedi’u lleoli y tu fewn i diriogaeth cynghorau sir sydd yn Saesneg eu hiaith yn bennaf, ac nad ydynt, efallai, yn barod i weithredu polisïau iaith cryf.

12.4 Gan fod y cymunedau Cymraeg yn debyg i’w gilydd o ran eu cyfansoddiad sosio-ieithyddol a phroffeil economaidd, credwn y dylid hybu cydweithio rhwng cymunedau Cymraeg ar draws y ffiniau gweinyddol hyn.

12.5 I’r perwyl hwn, dylid sefydlu pwyllgor rhanbarthol y tu fewn i’r Cynulliad yn seiliedig ar yr ardaloedd Cymraeg.

12.6 Dylid sefydlu Cyngor Statudol etholedig yn cynrychioli’r ardaloedd Cymraeg. Fe allai’r cyngor ddilyn sawl model rhyngwladol fel *Udaras na Gaeltachta*, cyngor etholedig yr ardaloedd Gwyddeleg eu hiaith yn Iwerddon, sy’n bennaf gyfrifol am ddatblygu economaidd, neu *Comisiun na Gaeltachta*, sydd yn cynghori’r llywodraeth yn Nulyn ar y broydd Gwyddeleg eu hiaith, neu *Udalerri Euskaldunen Mankomunitatea*, y gymdeithas ymbarél ar gyfer cynghorau bro yng Ngwlad y Basg y mae dros 75% o’u poblogaeth yn siarad Basgeg.

Fe all y Cyngor Statudol newydd fod yn gyfrifol am yr amgylchedd ieithyddol, yn union fel y mae tri Awdurdod Parciau Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am yr amgylchedd gweledol. Dylai’r Cyngor Statudol hwn allu gosod targedau o ran isafswm perfformiad ieithyddol i gynghorau sir sydd â chyfrifoldeb am gymunedau Cymraeg. Yn hyn o beth, fe ddylai fod ganddo ddannedd cyfreithiol. Fe ddylai hefyd fod â chyfrifoldeb am osod is-ddeddfwriaeth yn y maes cynllunio.

12.7 Fe ellid ystyried datblygu’r Mentrau Iaith maes o law i gael rhai swyddogaethau statudol yn lleol, ac edrych arnynt fel seiliau cymunedol y Cyngor Statudol newydd.

**Nodiadau**